| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 20 Chwefror 2018 |
| **Aelod Arweiniol / Swyddog:** | Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Richard Weigh, Pennaeth Cyllid |
| **Teitl:** | **Treth y Cyngor 2018/19 a Materion Cysylltiedig** |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Wrth fabwysiadu penderfyniadau cyfarfod cyllideb y Cyngor ar 30 Ionawr 2018, mae angen i'r Cyngor wneud penderfyniadau ychwanegol mewn ffurf benodol i sicrhau bod Treth y Cyngor a'i materion cysylltiedig yn gyfreithiol ddilys.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae angen penderfyniad i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2018/19.

**3. Beth yw'r argymhellion?**

3.1 Mae'n ofynnol i'r Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref/Cymuned a chyhoeddi lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19.

3.2 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel ag y maent yn adran 3 Atodiad A.

3.3 Argymhellir bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel ag y maent yn adran 4 Atodiad A.

3.4 Bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel a'u cyflwynir yn Atodiad C.

3.5 Bod lefel y gostyngiad ar gyfer Dosbarth A, B a C fel a nodir yn Rheoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth nac amodau lleol.

**4. Manylion yr Adroddiad**

Oherwydd bod angen cymeradwyo'r penderfyniad a'r argymhellion yn y modd a bennwyd, mae Atodiad A yn cynnwys manylion yr adroddiad.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Flaenoriaethau Corfforaethol?**

Os nad yw'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo, ni fydd yr Awdurdod yn gallu codi biliau Treth y Cyngor, felly ni fydd incwm sydd ei angen i ariannu Blaenoriaethau Corfforaethol ar gael.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r gost o godi a dosbarthu gofynion Treth y Cyngor yn cael ei diwallu o fewn adnoddau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Cwblhawyd asesiadau o effaith ar les mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer yr arbedion a'r cynnydd i Dreth y Cyngor yn rhan o broses y gyllideb ac roedd yn ffurfio rhan o bapurau'r gyllideb a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 30 Ionawr 2018 . Roedd asesiad ar gyfer y newid i bolisi Isafswm Darpariaeth Refeniw hefyd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Medi 2017.

**8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cyflawni gyda'r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Mae lefel Treth y Cyngor yn ffurfio rhan o'r gyllideb a bennwyd gan y Cyngor. Cafodd Aelodau eu briffio ar y sefyllfa ariannol ym mis Medi ac yn dilyn cyhoeddi'r setliad dros dro ym mis Hydref. Cynhaliwyd dau gyfarfod penodol briffio'r gyllideb ym mis Tachwedd. Mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth wedi bod yn rhan o broses y gyllideb. Mae sesiynau briffio gyda grwpiau gwleidyddol wedi cael eu cynnig gan yr Aelod Arweiniol. Mae'r cynigion yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hystyried gan y Cabinet ac fe gymeradwywyd y gyllideb gan y Cyngor Llawn ar 30 Ionawr 2018.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor i osod Treth y Cyngor. Mae'r rheoliadau'n rhagnodol ynghylch sut y dylid gwneud hyn ac mae'r adroddiad hwn yn bodloni'r gofynion hynny.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Risg ariannol o fethu â chasglu incwm Treth y Cyngor. Mae cyfraddau casglu'n uchel ac yn cael eu monitro'n agos drwy gydol y flwyddyn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008.